# Newyddion Ansawdd

Prifysgol Cymru
University of Wales

Rhifyn 34 Ionawr / Chwefror 2012

## Chweched Fforwm Sicrhau Ansawdd Ewropeaidd 17-19 Tachwedd 2011 Prifysgol Antwerp a Choleg Prifysgol Arteis

### ‘Ansawdd ac Ymddiriedaeth: wrth galon yr hyn a wnawn’

Bwriad Chweched Fforwm Sicrhau Ansawdd Ewropeaidd oedd dychwelyd i feddwl ‘llawr gwlad’ ynglŷn â sicrhau ansawdd mewn Addysg Uwch trwy gyfrwng y thema ‘ymddiriedaeth’.

Cyflwynwyd y thema gan Fiona Crozier (Cadeirydd, Pwyllgor Fforwm Sicrhau Ansawdd Ewropeaidd), a holodd i ba raddau y mae’r gwahanol bartïon sy’n rhan o sicrhau ansawdd, yn cynnwys asiantaethau allanol a’r cyhoedd, yn ymddiried yn ei gilydd, tra roedd yr Athro Alain Verschoren (Rheithor, Prifysgol Antwerp), a groesawodd y cynrychiolwyr, yn gweld bod y gwahanol brosesau sy’n rhan o sicrhau ansawdd, o holiaduron gwerthuso myfyrwyr i fforymau a meincnodi, yn ddibynnol ar yr ymddiriedaeth

yr oedd gan wahanol randdeiliaid ynddynt.

Roedd yr Athro Mala Singh (Y Brifysgol Agored), y cyntaf o'r siaradwyr i gyfarch y cyfarfod llawn, yn priodoli cryfder a hynodrwydd Sicrhau Ansawdd Ewropeaidd i'w model 'rhanddeiliaid' cyfranogol er ei bod yn amheugar ynglŷn â pha mor bell yr oedd prosesau sicrhau ansawdd yn cael eu democrateiddio gan fod rhai partneriaid pwysig, yn arbennig yr academïau, yn aml yn absennol o'r trafodaethau. Yn yr economïau cyllidol tynn sydd ohoni, dadleuodd, roedd y tensiwn rhwng dimensiynau 'uchafu' a 'rheoleiddio' sicrhau ansawdd wedi arwain at symud oddi wrth rym 'meddal' (yn canolbwyntio ar hunan reoleiddio) at rym 'caled' (wedi ei ganoli'n fwy, yn cael ei yrru gan gydymffurfiaeth ac arolygol).

Dychwelodd Marion Coy, (cyn Gyfarwyddwr, Athrofa Technoleg Galway-Mayo, Iwerddon) at ddau gwestiwn 'llawr gwlad', 'Pam ydym ni'n gwerthuso Addysg Uwch?' a 'Beth yw'r ffordd orau o wneud hyn?' Gwrthododd dull deuaidd yr Athro Singh o feddwl - cyhoeddus a phreifat, mewnol ac allanol, a chyfarwyddeb ac ymreolaeth - gan nad yw'n adlewyrchu 'bywyd go iawn' a dadleuodd na ellid gwadu goruchafiaeth gwleidyddiaeth mewn sicrhau ansawdd. Gofynnodd i'r fforwm 'pam fod y rhai o'r tu allan i Addysg Uwch i'w gweld yn cael anhawster cysylltu â'r maes?' a rhybuddiodd, yn y sefyllfa fyd-eang sydd ohoni, bod perygl i lywodraeth ymateb i fersiynau eithafol o'r hyn y mae'n credu y mae cyflogwyr ei eisiau. Tra roedd yr Athro Singh yn rhoi pwyslais ar 'ganlyniadau' fel dimensiwn pwysicaf rheoleiddio mewn sicrhau ansawdd ac yn canolbwyntio ar wybodaeth o bwnc mewn perthynas â'r gweithle, roedd Coy yn pwysleisio perthnasedd addysg i ddinasyddiaeth.

Singh a Coy oedd yn gyfrifol am y brif eitem ar yr agenda i grwpiau trafod y fforwm, sicrhau ansawdd yng nghyd-destun y dirywiad cyllid byd-eang. Cafwyd llawer o ddiddordeb yn y syniad bod perfformiad sefydliadol yn cael ei fesur yn gynyddol yn erbyn buddsoddiad cyhoeddus ac yn y modd yr oedd hyn yn ymddangos i fod yn gyrru ymagwedd tuag at sicrhau ansawdd sydd yn rheoleiddiol, yn feintiol ac sy'n ymwneud yn bennaf â dyfeisio dulliau o fesur ansawdd.

Sjur Bergean (Pennaeth Adran Addysg Uwch a Graddau, Cyngor Ewrop) oedd y trydydd siaradwr a'i bwnc ef oedd sut yr oedd yr UE yn cael ei gweld i fod yn creu systemau dwys oedd yn anodd i rai o'r tu allan eu deall. Er ei fod yn cydnabod yr angen i sicrhau bod y prosesau mewnol yn gywir, roedd yn cwestiynu pam yr oedd Addysg Uwch yn cael ei weld i fod yn wael o ran sicrwydd allanol a pham fod diffyg ymddiried cyhoeddus yn y ffordd yr oedd yr UE yn mynd i'r afael â thangyflawniad a thanberfformiad.

Dau o'r sesiynau trafod ar addysg ryngwladol oedd yn fwyaf perthnasol i Brifysgol Cymru. Roedd Padraig Walsh (Prif Weithredwr, Irish Universities Quality Board) ac Andrea Bernhard (Cynorthwyydd Ymchwil yn Adran Gwyddorau Addysgol, Prifysgol Graz, Awstria) yn trin sicrhau ansawdd fel cysyniad anodd ei gipio mewn cyd-destun rhyngwladol. Pwysleisiodd y ddau bwysigrwydd ymddiried yn y prosesau achredu. Pwysleisiodd Walsh bwysigrwydd parch tuag at y dyfarniad ei hun a sut y mae adeiladu enw da yn rhyngwladol yn broses tymor hir. Ond Andrea Barnhard, mewn sesiwn trafod oedd dan ei sang, a gyffrôdd y fforwm go iawn. Yn seiliedig ar ei doethuriaeth a gwblhawyd yn ddiweddar, roedd ei phapur yn gosod addysg trawswladol yng nghyd-destun trawsnewid byd-eang Addysg Uwch oedd yn cynnwys y symudiad at wneud popeth yn dorfol, arallgyfeirio, preifateiddio a rhyngwladoli.

Tra'r oedd rhai siaradwyr yn pwysleisio sut yr oedd rhyngwladoli wedi llesteirio sicrhau ansawdd, roedd Bernhard, yn defnyddio astudiaethau achos o Awstria, Y Ffindir, Yr Almaen, Y DU a Chanada, yn dadlau bod rhyngwladoli yn 'sbardun cadarnhaol' mewn prosesau sicrhau ansawdd.

Roedd Barnhard, fel Walsh, yn pwysleisio pwysigrwydd systemau sicrhau ansawdd sydd â 'hygrededd ym mhob man'. Ond fe eglurodd pam fod hyn mor bwysig i Ewrop: pwysigrwydd a chymhlethdod addysg drawsffiniol; y symudiad, yn rhyngwladol, o ymagwedd gwladwriaeth ganolog at agweddau sy'n seiliedig ar sefydliad ble mae atebolrwydd yn ffocws cenedlaethol; natur eang model rhanddeiliaid Ewrop; a phwysigrwydd y farchnad lafur drawswladol.

Ymysg y pynciau poblogaidd yn sesiwn gloi'r fforwm roedd: faint oedd sicrhau ansawdd yn ei gyflawni'n ymarferol; oedd yna gysyniad 'Ewropeaidd' o sicrhau ansawdd; y berthynas rhwng sicrhau ansawdd, ymreolaeth ac arian cyhoeddus; ymddangosiad sicrhau ansawdd yn seiliedig ar risg yn Ewrop; systemau sicrhau ansawdd y gall myfyrwyr ei chael hi'n haws bod yn rhan ohonynt; a'r berthynas rhwng atebolrwydd ac achredu. Yn y trafodaethau yn dilyn y sesiwn lawn olaf, roedd yn amlwg mai'r hyn a gafodd nifer o gynrychiolwyr oedd, nid dychwelyd at 'lawr gwlad', ond yn hytrach cipolwg ar ddyfodol ble roedd gan asiantaethau allanol oedd yn gyfrifol am reoleiddio sicrhau ansawdd, gangen oedd hefyd yn gyfrifol am achredu ac uchafu. Nawr, dyna rywbeth i i feddwl amdano!

Yr Athro Linden Peach
Deon y Celfyddydau a'r Dyniaethau

# Ar y Gweill
# Chwefror / Mawrth 2012

| | |
|---|---|
| 21 Chwefror | *Access with Impact: Evaluation and Impact of Access and Outreach Activities*<br>Llundain<br>http://www.universitiesuk.ac.uk/Events/Pages/AccesswithImpact.aspx |
| 22 Chwefror | *A Student-Centred Approach to Developing the Content, Delivery, and Assessment of Research Process Modules: Insights and Evaluations of Student Retention*<br>Caerdydd<br>http://www.heacademy.ac.uk/events/detail/2012/seminars/themes/tw047_cardiff_met |
| 28 Chwefror | Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu Myfyrwyr: *9000 Ways to Engage Annual Student Conference*<br>Birmingham<br>http://studentlandtnetwork.ning.com/events/9000-ways |
| 1 Mawrth | Gweithdy Yr Academi Addysg Uwch: *Collaborative Partnerships for Islamic Studies in Higher Education*<br>Llundain<br>http://www.heacademy.ac.uk/events/detail/2012/academyevents/Collaborative_Partnerships_for_Islamic_Studies_in_Higher_Education_March_2012 |
| 28-29 Mawrth | Cynhadledd Yr Academi Addysg Uwch: *What works? Student retention and success*<br>York<br>http://www.heacademy.ac.uk/events/detail/2012/28_29_March_2012_retention_conference |

**Gall testun y cyhoeddiad hwn fod ar gael mewn fformatau eraill - cysylltwch â'r Brifysgol.**
**newyddionansawdd@cymru.ac.uk**

# Canolfannau PC i drafod canllawiau newydd ar asesu myfyrwyr

Yng nghyfarfod diweddaraf Pwyllgor Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol, ystyriwyd ystod o ddogfennau ymgynghori a phapurau polisi newydd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Ysgogodd un o'r rhain *(Deall asesu: ei rôl yn diogelu safonau ac ansawdd academaidd mewn addysg uwch)* drafodaeth gyffrous ymysg aelodau'r pwyllgor. Cwestiwn allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd beth yw'r ffordd orau i sicrhau bod yr ymchwil a'r datblygiadau polisi diweddaraf yn ymwneud ag asesu myfyrwyr yn cael eu trafod a'u cynnwys ar draws y sbectrwm o bartneriaid cydweithredol - a'r gymuned academaidd yn arbennig.

Awgrymodd y pwyllgor mai un ffordd o gyflawni hyn fyddai defnyddio'r ddogfen ASA fel sail ar gyfer trafodaeth yn rownd nesaf cyfarfodydd y Cyd-fwrdd Astudiaethau ym mhob sefydliad partner. Awgrymwyd y gallai trafodaeth o'r fath fod yn sail i ymagwedd 'thema uchafu' dysgu ac addysgu newydd, ble y gellid trafod thema newydd, berthnasol ac amserol bob blwyddyn fel eitem ar yr agenda.

Mae thema eleni'n arbennig o berthnasol gan fod asesu myfyrwyr ac adborth yn parhau i fod yn faes pryder parhaus mewn prifysgolion, fel y tystiolaethir gan ganlyniadau gwael yn y maes yn Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol y DU, ac arolwg mewnol y brifysgol ei hun. Mae rhai myfyrwyr yn rheolaidd yn adrodd lefelau boddhad is o'r adborth asesu y maent yn ei dderbyn ar ei gwaith. Wrth gymryd y cyfle i ymglymu ag ymarfer gorau a chanllawiau ASA ar y thema hon yng nghyfarfodydd y Cyd-fwrdd Astudio o amgylch y byd, gobeithir y bydd aelodau cyfadrannau partner Prifysgol Cymru ar flaen y gad yn gwella asesu ac adborth ar gyfer eu myfyrwyr.

Mae hyn yn gweddu'n berffaith gydag uchelgeisiau canllawiau'r ASA, sy'n awgrymu y dylai astell ganolog asesu "...fod yn rhan annatod o ddysgu...y gall asesiad crynodol yn ogystal ag asesiad ffurfiannol hwyluso dysgu myfyrwyr, a'i fod yn gwneud hynny." Mae'r canllawiau'n cynnig cyngor pragmatig ar ôl asesu o safbwynt yr addysgwr a'r myfyriwr. Fel yr awgryma: "I'r myfyriwr, mae darnau unigol o asesu'n ffynhonnell o gymhelliant ar gyfer astudiaeth; maent yn hyrwyddo dysgu trwy ddarparu adborth ar berfformiad a helpu myfyrwyr i ganfod eu cryfderau a'u gwendidau.

I'r darlithydd, mae asesiad yn gyfle i werthuso'r wybodaeth, dealltwriaeth, gallu a sgiliau y mae myfyrwyr wedi eu cyflawni. Mae'r proffil cyffredinol o berfformiad myfyriwr yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer asesu effeithiolrwydd cynnwys y cwrs a dulliau addysgu, ac felly'n hwyluso gwelliant."

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu, yr Athro Simon Haslett, "Mae hwn yn gyngor amserol a defnyddiol gan yr ASA, a thrwy gynnwys y papur canllawiau fel eitem ar agenda cyfarfodydd Cyd-fwrdd Astudiaethau lleol, rydym yn obeithiol y bydd yn ysgogi trafodaeth fywiog ymysg cydweithwyr yn ein sefydliadau partner cydweithredol."

Gobeithir y bydd y fenter yn ennill gradd 'dosbarth cyntaf' i ganolfannau PC, ac fe all gynnig cyfle i rannu ymarfer gorau ar draws ystod eang o ddarpariaeth. "Gallai hefyd fod yn sail i ddigwyddiadau datblygu staff dan arweiniad Safonwyr Prifysgol," ychwanegodd yr Athro Haslett.

Gellir mynd at y ddogfen lawn ar:

http://www.qaa.ac.uk/Publications/InformationAndGuidance/Documents/UnderstandingAssessment.pdf

Dr Gary Pritchard
Uwch Ddarlithydd, Celf a Dylunio